# DINESYDD Mawrth

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH | 1981 | RHIF 75

# Beth fydd eich ateb chi?


Yn ystod Ebrill 1981, cynhelir cyfrifiad poblogaeth trwy Brydain fel y gwneir bob deng mlynedd. Ar ffurflenni Cymru bydd cwestiynau ychwanegol:

**YDYCH CHI'N MEDRU SIARAD CYMRAEG?**
**YDYCH CHI'N MEDRU DARLLEN CYMRAEG?**
**YDYCH CHI'N MEDRU YSGRIFENNU CYMRAEG?**

Beth yw ystyr y cwestiynau hyn? Yn syml iawn, dydyn nhw ddim yn golygu fod yn rhaid eich bod chi wedi pasio arholiad neu eich bod chi'n cynganeddu, neu'n gweithio i gorff neu fudiad Cymraeg. **Os ydych chi'n siarad Cymraeg â phobl yn eich stryd, yn y capel neu'r dafarn, yn darllen papur bro neu'r 'Cymro' neu'n mwynhau 'Pobol y Cwm', 'Ydw' ddylai eich ateb fod i'r cwestiynau uchod. Os ydych chi'n ddysgwr sydd wedi dysgu digon i gynnal sgwrs neu darllen neu mwynhau rhaglenni teledu, mae'r un peth yn wir.** Os ydych chi'n fyfyriwr neu'n weithiwr sy'n gorfod bod i ffwrdd y tu allan i Gymru am gyfnodau, byddwch adre ar nos Sul y 5ed o Ebrill er mwyn llenwi'ch ffurflen. Cred Urdd Gobaith Cymru ei bod yn bwysig i bawb lenwi'r ffurflen yn gywir er mwyn i bawb weld beth yw'r gwir sefyllfa ynglŷn â'r iaith Gymraeg ym 1981.

**OS YDYCH CHI'N MEDRU DARLLEN HWN, YDW YW'R UNIG ATEB ONEST I CHI.**

Am fwy o wybodaeth, cysyllter â'r Trefnydd Iaith, Swyddfa'r Urdd, Heol Llanbadarn, Aberystwyth, Dyfed.




Arglwydd Raglaw De Morgannwg

### NOREEN BRAY

'Yn aml iawn, mae pobl yn cam-ddeall cwestiynau fel 'Ydych chi'n medru siarad, ysgrifennu neu ddarllen Cymraeg?' ac yn dychryn. Mae nhw'n teimlo fod yn rhaid meistroli'r iaith yn llwyr cyn medru ateb 'Ydw' i bob cwestiwn. Yn rhyfedd iawn, does neb yn meddwl yn y termau hyn lle mae Saesneg yn y cwestiwn. Apeliaf arnoch, fel un sydd wedi dysgu Cymraeg, ac sy'n dal i ddysgu, os ydych chi'n gallu darllen a deall y geiriau hyn rhowch 'Ydw' i lawr bob tro.'

Noreen Bray

Darlledwraig gyda'r BBC a Dysgwr

### DAN DAMON

'Cefais i fy ngeni'n ddi-Gymraeg, ond rydw i wedi dysgu'r iaith. Bellach rwy'n teimlo'n ddigon rhugl i siarad, sgwennu a darllen Cymraeg heb deimlo'n swil. Byddaf i'n dweud hynny ar fy ffurflen yn y cyfrifiad a gobeithiaf y bydd pob dysgwr profiadol yn gwneud yr un peth.'

Dan Damon

YDW

### PHILLIP ROSSER

Trefnydd Cymru Undeb y Gweithwyr Trafnidiol a Chyffredinol (T.G.W.U.)

### MYFYR ISAAC

'Mae pobl yn barod iawn i gredu fod yn rhaid i rywun brofi ei fod e'n Gymro Cymraeg trwy'r amser. Pan o'n i'n canu gyda'r grŵp 'Budgie' ar draws y byd, fel canwr roc yn Saesneg roedd pawb yn meddwl amdana i, ond pebai rhywun wedi gofyn, fe fydden nhw wedi cael clywed y gwir - rwy'n Gymro Cymraeg. Ym mis Ebrill fe fydd y llywodraeth yn gofyn ar ffurflenni'r cyfrifiad - ac fe fydda i'n ateb 'Odw' pob tro.'

Myfyr Isaac

Cerddor Roc

## YSGOLION CYMRAEG NEWYDD

O'r diwedd fe benderfynodd Nicholas Edwards trwy'r Swyddfa Gymreig ganiatau dwy ysgol gynradd Gymraeg arall i Gaerdydd, yn ychwanegol at Fryntaf a Melin Gruffydd. Pam, pam yr oedi fel yn hanes Ysgol Melin Gruffydd ac Ysgol Gyfun Glantaf?

Beth bynnag y rheswm am yr oedi, yr hyn sy'n bwysig nawr yw fod Addysg Gymraeg yn ffynnu a bellach fe fydd plant Cymraeg eu hiaith yng Nghaerdydd yn cael mynd i Ysgol Gymraeg yn Melin Gruffydd, i Bentrebên, i Gefn-onn neu am beth amser eto, i Fryntaf. Mae'n debyg mai ysgolion mynediad un-ffrwd fydd rhain yn ôl y cyfarwyddyd a ddaeth o'r Swyddfa Gymreig. Ysgolion o tua 210 o blant. Cawn edrych ymlaen felly at sefydlu mwy a mwy o ysgolion led-led y ddinas.

Nododd Cadeirydd Pwyllgor Addysg y Sir, y Cynghorydd R.W.Boon, ei foddhad, ac ychwanegodd fod yma ddatblygiad cyffrous iawn mewn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.



# Golygyddol

Gyda rhifyn Ionawr/Chwefror mae tymor Martin Huws fel Golygydd wedi dod i ben. Mae'r Pwyllgor Rheoli yn ddiolchgar iddo am yr hyn a wnaeth.

Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu fel arbrawf i olygu'r papur ar y cyd fel y gwneir ag amryw o bapurau bro. O hyn ymlaen felly anfoner pob deunydd at Raymond Edwards, Afallon, 11 Clos Hendre, Llandaf. (563588).

Nod y Pwyllgor yw dod a'r papur maes yn brydlon erbyn Sul cyntaf bob mis. Felly dylai pob cyfraniad fod yn nwylo Mr. Edwards erbyn y 15fed o'r mis blaenorol yn ddiffael.

Ein bwriad yw cadw at yr amserau yn rheolaidd o hyn ymlaen a dibynna hyn ar gefnogaeth ein cyfranwyr a'n darllenwyr yn ogystal ag arnom ninnau sy'n ddigon ymwybodol o'n ffaeleddau yn y gorffennol.

Eich papur chi yw hwn - a dyma bapur bro hynaf Cymru. Da chi, rhowch help llaw. Bydd y Pwyllgor yn fodlon iawn i groesawu gweithwyr newydd i'n rhengoedd.

---

18 Gelli Glanwern,
Casnewydd.

Annwyl Syr,

Roedd llythyr Alwyn Griffiths yn 'Y Dinesydd' fis Tachwedd yn son am siopau'n gwrthod derbyn sieciau Cymraeg. Ga'i dynnu sylw eich darllenwyr at y ffaith fod Richard Shops, Heol y Frenhines, Caerdydd yn eu gwrthod. Hefyd gwrthododd y staff dderbyn geirfa Cymraeg/Saesneg a fyddai wedi eu galluogi i ddeall sieciau Cymraeg.

Yn gywir,

Janette Williams.

Gol. Diolch i Janette am ymateb i'r apel. Os clywch am enghreifftiau eraill, anfonwch atom.

---

**Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau Deddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol tuag at y rhifyn hwn.**

# O'R POST

APÊL AT GYN-GYSTADLEUWYR EISTEDDFOD YR URDD.

Amcangyfrifwn fod ar draws 330,000 o bobl ar hyd a lled Cymru sydd wedi cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ers ei chychwyn ym 1929. Mae'n ofid i ni nad oes gennym gysylltiad uniongyrchol â nhw ac fe'u gwahoddaf i anfon eu henwau a'u cyfeiriadau ynghyd a'r flwyddyn neu flynyddoedd y buont yn cystadlu atom i Swyddfa'r Urdd, meddai Ifan Prys Edwards, Cadeirydd Cyngor Urdd Gobaith Cymru, wrth annerch Clwb y Bont, Pwllheli.

Byddwn yn cadw rhestr fanwl o'r enwau gan anelu at gysylltu â'r cyn-gystadleuwyr yn flynyddol a'u hysbysu o'r hyn a wnaeth y mudiad yn ystod y flwyddyn ac o gynlluniau'r dyfodol.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd ym Mhwllheli ym 1982 byddwn yn lansio'r cynllun cynhyrfus, 'Urdd 2000' a gobeithiwn y medr miloedd ar filoedd o gyn-aelodau'r Urdd fod yn gefn i ni gyda'r holl weithgarwch cyfoes, diddorol a gychwynnir ym 1982 pan fydd mudiad yr Urdd yn 60 oed.

Anfonwch eich henwau at Y Cyfarwyddwr, Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth.

---

9 Heol Llanishen Fach,
Rhiwbeina, Caerdydd.

Annwyl Olygydd,

Penderfynodd dwy o'm ffrindiau ynghyd â minnau fynd o amgylch Cymry Cymraeg Rhiwbeina i ganu calennig fore Blwyddyn Newydd.

Roedd yn ddiwrnod trist i ni fel teulu oherwydd i ni golli ffrind yr un oedran â mi o Benybont ar Ogwr, disgybl yn Ysgol Gyfun Llanhari. Roedd e wedi bod yn dioddef o lewcemia am beth amser, felly penderfynom gasglu tuag at yr achos hwn.

Bu y tair ohonom o amgylch Rhiwbeina yn canu am tua dwy awr a chawsom groeso ymhobman. Carwn ddiolch i bawb trwy eich papur am gyfrannu mor hael. Daeth cyfanswm y casgliad yn £17 a throsglwyddwyd hwn i Gronfa Lewcemia yn ysbyty Llanddochau.

Yr eiddoch yn gywir,

Eleri Morgan.

Llyfrgell Dyfed,
Stryd San Pedr,
Caerfyrddin, Dyfed.

Annwyl Gyfeillion,

Diau eich bod wedi clywed y gwyn am y prinder o ddeunydd ar gaset yn Gymraeg ar gyfer y deillion a'r rhannol-ddall. Bellach, trwy ymdrechion criw bychan yng Nghaerfyrddin y mae'r sefyllfa wedi gwella cryn dipyn. Bwriad ein cynllun, o dan nawdd y Cyngor Llyfrau Cymraeg, yw adeiladu llyfrgell amrywiol o gasetiau er mwyn eu dosbarthu i'r deillion.

Recordiwyd nifer o awduron yn darllen eu gwaith megis Eigra Lewis Roberts, Islwyn Ffowc Elis, Beti Hughes, Bryan Martin Davies, a T.Llew Jones. A darllenwyd amryw o deitlau poblogaidd eraill gan wirfoddolwyr.

Dosborthir casetiau o'r ganolfan yng Nghaerfyrddin trwy ddefnyddio cynllun rhad ac am ddim i ddeillion gan y Swyddfa Bost. Erbyn hyn y mae rhai deillion yma a thraw wedi dod i wybod am ein Gwasanaeth ond carem roi mwy o hysbysrwydd iddo er mwyn cyrraedd deillion ymhob rhan o Gymru nad ydynt eto yn gwybod amdano.

Os oes gennych chi aelod o'r teulu neu gyfaill a fyddai'n hoffi derbyn ein casetiau, a wnewch chi ddweud wrtho/wrthi amdanom a dod i gysylltiad a ni. Diolch yn fawr.

Yr eiddoch yn gywir,

Rhian Evans, Cyfarwyddwr.

---

ARWERTHIANT HEN DDODREFN AC ATI

Cynhelir yn Neuaddy Pentref, Pentyrch, ddydd Sadwrn, Ebrill 4ydd, am 2.30. Am fanylion pellach cysyllter a Robin Griffith, Creigiau 890133 neu Mrs. Minwell Tibbott, Pentyrch 890461. Arwerthwr: David Davies o Stephen & Alexander.

---

CYLCH CINIO CYMRAEG CAERDYDD.

Yn ddiweddar etholwyd swyddogion y Cylch am y flwyddyn 1981. Mr. T. Arfon Williams fydd y Llywydd, a Mr. Raymond Edwards yr Is-Lywydd. Erys y Trysorydd Mr. Brian Evans, yr un, ac felly hefyd yr Ysgrifennydd, Mr. Dennis Francis, 28 Heol y Felin, Rhiwbeina (66779).

Gwelwyd rhai wynebau newydd yn ddiweddar a bydd croeso i eraill a fynnai ymuno. Anfonwch at yr Ysgrifennydd am fanylion.

DWY SWYDD HOLL-BWYSIG WEDI EU LLENWI YN YSGOL GYFUN GYMRAEG CWM RHYMNI.

Llongyfarchiadau calonnog i Mr. Gareth Williams, Pennaeth yr Ysgol Uchaf yn Rhydfelen ar hyn o bryd, bellach yn ddirprwy-brifathro yr Ysgol Gymraeg newydd yn Cwm Rhymni. Mae Gareth yn hannu o Gorseinon, yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Tregŵyr a Choleg y Brifysgol, Abertawe. Mae wedi cael profiad blynyddoedd yn Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydfelen a bellach bydd yn gweithio'n galed i sicrhau llwyddiant yr ysgol newydd hon.

Caroline Phillips, o Bentrepoer, a chyn-ddisgybl ym Ysgol Hendygwyn, fydd yn ddirprwy-brifathrawes yr ysgol. Mae hi ar hyn o bryd yn dysgu Mathemateg yn Ysgol Gyfun Llanhari.

---

NEWID SWYDD YN YR UN YSGOL

Llongyfarchiadau calonnog i Mr. Gwyn Pritchard Jones ar gael ei apwyntio'n Gofrestrydd Academaidd i Ysgol Rhydfelen. Mae Mr. Jones yn hannu o Fangor a mae'n Gyn-Bennaeth yr Adran Sgrythur yn yr ysgol ac yn awr yn Bennaeth yr Ysgol Isaf. Mae'n mynd yn awr i swydd bwysig arall a fe'n llongyfarchwn yn galonnog. Mae'n dad i ddau o blant Gerallt a Lowri ac mae e a'i wraig Eirlys yn byw yn Llanbedr y Fro.

---

Llongyfarchiadau i Huw Thomas ar ei benodi yn brifathro Ysgol Gyfun Gymraeg newydd Cwm Rhymni. Dymunwn yn dda iddo ar y garreg filltir bwysig hon yn ei yrfa ac i addysg Gymraeg yn y Cwm.

---

Cawsom sioc yn Heol y Crwys wrth glywed i Mr Howard George gael ei gipio i'r ysbyty. Rym yn falch iawn i sylweddoli ei fod yn well ac y cawn brofi ei hiwmor iach cyn bo hir yn y Crwys.

Cydymdeimlir yn ddwys â Mr. Lloyd Evans a Mr. John Albert Evans ar farwolaeth eu mam yn ysbyty Aberystwyth.

# NEWID AELWYD

Chwith ffarwelio â Dilys a Gunston Jones ar ol ysbaid fer yng Ngherdydd. Pob dymuniad da i'r ddau yn eu cartre newydd yn Aberaeron. Gwelwn golli Gunston ym mhwyllgorau'r 'Dinesydd'.

# LLONGYFARCHION

Llongyfarchiadau calonnog i'r Doctor Iorwerth C. Peate, Maes y Coed, Sain Nicolas, ar ddathlu ei benblwydd yn bedwar ugain ar y 27ain o Chwefror. Roedd ei gyfeillion oll yn yr Amgueddfa Werin yn hapus iawn o gael ei gwmni ef a Mrs. Peate yn eu Cinio Gŵyl Ddewi drannoeth ei benblwydd.

---

Llongyfarchiadau i Mrs. Margaret Davies ar ddathlu ei phenblwydd. Mae'n dweud ei bod wedi cyrraedd oedran yr addewid ond does neb yn ei chredu hi. Fe ddathlodd ei phenblwydd yng nghwmni ei theulu yn Rookwood Close a gwledda ar dwrci.

---

Priodas dda i Mici Williams o Benygroes sy'n dysgu Gwaith Coed yn Rhydfelen. Priodwyd ef a'i wraig ar Sadwrn, 21ain o Chwefror yn Llanaelhaearn. Pob dymuniad da i'r antur newydd hon eto.

---

Cyhoeddir dyweddiad Ems, un o'r Tebot Piws gynt â Mair Rowlands sy'n dysgu Saesneg yn Rhydfelen.

---

Os oes yna Gardis cydwybodol yn byw yn ardal Pontcanna a Threcanna, beth am gael gwared ar yr holl bapurau newydd, stampiau a chloriau poteli llaeth ar gyfer achos da. Ewch â nhw i 73 Heol Conway, cartre Mrs. Jan Child. Fe aiff hi â nhw i Uned Y Babanod Bach (Prems.) yn Ysbyty Dewi Sant.

# CROESO

Ganwyd mab, Hefin Paul, i'r Doctor Gwen Aubrey a'i gwr Paul ar Ragfyr 29ain. Doctor Aubrey yw Pennaeth Adran y Tafodieithoedd yn Sain Ffagan. Llongyfarchiadau i'r ddau.

---

Ar y 14eg o fis Ionawr ganwyd Gethin James Owen Edwards, mab Gwen a Gareth Edwards ac wyr cyntaf i Doris a Tom Ellis James. Un o Gaerdydd yw Gwen ond o Bedlinog mae Gareth yn hannu ond bellach mae wedi hen gartrefu gyda Gwen yng Nghaerdydd. Croeso mawr i Gethin.

---

Croeso nôl i Bryntaf i Mrs. Clee. Mae pawb yn ei hadnabod. Bu'n dost am gyfnod o fis a bu'r plant yn hiraethu ar ei hol - ond bellach mae wedi dychwelyd a'r plant wrth eu bodd.

# CROESO I GAERDYDD

C A R N O


\- C H I C A G O

\- C A E R D Y D D

Bydd siop Laura Ashley wedi'i hagor yng Nghaerdydd erbyn i'r rhifyn yma ymddangos. "Ein nod oedd agor yng Nghaerdydd ar Ddydd Gŵyl Dewi", dywedodd rheolwraig gyffredinol y Cwmni byd-enwog wrth ein gohebydd a alwodd mewn i'r siop pan oeddid yn paratoi at yr agoriad. "Ond gan fod yr Wyl eleni ar ddydd Sul, mae'n rhaid inni agor ar y diwrnod agosaf sy'n gyfleus sef dydd Gwener, Chwefror 27ain". Cytunodd ei bod yn hen bryd i'r Cwmni o Garno sydd a siopau yn Ewrop ac America agor yn y Brifddinas ac ychwanegodd fod y dirprwy reolwr yng Nghaerdydd i fod yn Gymro Cymraeg. Bydd croeso i Gymry Caerdydd yn y siop ddillad Gymraeg yn yr Heol Fawr.



# PEL GRON



Rhodri Gwyn Jones.

Dechrau blwyddyn newydd arall, a'r ysfa yr un o hyd i herio'r brifddinas ar ei mwysydd pel-droed. Criw cyhyrog, yn dangos olion pendant o'r gwledda dros yr Wyl, yn dwrci ac yn bwdin Dolig, yn gnau ac yn fins peis, a wynebodd erwinder y Sadwrn cyntaf o 1981 ym mwd Rhymni, a'r gwrthwynebwyr - Toriaid Rhymni. Roedd gwynt cryf yn chwyrlio ar draws y maes, ac roedd hi bron yn amhosibl i chwarae peldroed celfydd dan y fath amgylchiadau. Ta waeth, cafwyd ymdrech deg yn erbyn yr elfennau ac ar ddiwedd y dydd, rhaid fu bodloni ar rannu'r pwyntiau, un i ni, un iddyn nhw, ac un i'r gwynt. Di-egor oedd hi hanner amser, ond yna yn fuan wedi'r ail-gychwyn dyma gôl gampus gan Richard, un sy'n arfer chwarae i'r ail dim - codi'r bêl yn daclus dros ben y golgeidwad o gryn ugain llath. Yn anffodus, trwy ddyfalbarhad a blerwch ein capten, Huw bach, llwyddodd y Toriaid i lefelu'r sgôr, a hynny yn eiliadau olaf y gêm - prin bod amser yn weddill i gyrchu'r bêl i ganol y cae pan glywyd chwiban y dyfarnwr am y tro olaf.

Ymlaen wedyn i'r Sadwrn canlynol, ac ail gêm y tymor yn erbyn y tîm croenddu, hirwalltog, llydan eu gwên, hir eu dannedd ond byr eu hamynedd a'u tymer. Ar gae ras Trelai y tro hwn, a'r hin unwaith yn rhagor yn filain, a rhyferthwy'r gwynt yn dinistrio pob awydd i chwarae. Brwydro fu raid, a ninnau yn chwarae i ddannedd y gwynt yn yr hanner cyntaf. Braw a gawsom yn gynnar yn y gêm pan sgoriodd Sevenoaks, ond yna ychydig cyn hanner amser, cafwyd gic gosb wedi i Martin gael ei lorio yn ddiseremoni gan eu golgeidwad, a phleser oedd gweld Rheon yn plannu'r bel yng nghefn y rhwyd - hyn wrth gwrs wedi iddo gael ei wynt ato wedi rhedeg o'i hanner ei hun. Yn wir gêm Rheon fu hon o hynny ymlaen. Rhyw ddau funud i'r ail hanner, cic mul o gic rydd o ganol y cae, a honno yn y rhwyd cyn i neb gyffroi, ac yna cic gosb arall wedi i Wyn y tro yma gael ei lorio yn y blwch cosbi. Fe lwyddodd y duon i dynnu'r sgôr yn nes cyn diwedd y gêm, hynny o'r smotyn gwyn hefyd, ond Clwb Cymric a orfu ar ddiwedd y dydd o dair gôl i ddwy.

Gohiriwyd gêm y Sadwrn canlynol oherwydd y glaw trwm yn ystod yr wythnos honno, ac roedd pawb yn falch o gael y dydd yn rhydd i weld y gem rygbi ryngwladol rhwng Cymru a Lloegr. Yna ar Ionawr 24ain, gêm bwysig yn erbyn cyn ddisgyblion ysgol Rhymni - tîm oedd yn ail yn y gynghrair ac yn awyddus i gadw'i safle yn agos i'r brig. Cawsant gryn sioc, a braf ydi cael cofnodi buddugoliaeth wych i'r Cymric o ddwy gôl i ddim. Rhodri a sgoriodd y ddwy gôl, ond gwnaed y gwaith yn hawdd gan ddeg arall oedd yn fodlon rhedeg a gweithio'n galed am yr awr a hanner o chwarae. Chwalwyd amddiffyn y gelyn ddwy waith yn yr hanner cyntaf - Wyn yn curo'r bel yn yr awyr am y gôl gyntaf, a'r Doctor bach, Elwyn, yn taro ergyd galed na fedrai'r gol-geidwad ei dal, fu'r arweiniad i'r ail gôl. Bu'r frwydr yn chwyrn yn yr ail hanner ond daliodd y cefnwyr yn gadarn, ac heblaw am un arbediad gwych gan Dewi yn y gôl, ni lwyddasant i fygwth lefelu'r sgôr.

Byrhoedlog fu'r llawenydd serch hynny, a daeth y Sadwrn olaf o Ionawr â thrychineb i'w ddilyn. Y gêm unwaith yn rhagor yn Nhrelai, a'r gwrth-wynebwyr cyn ddisgyblion ysgol Fitzalan. Colli o ddwy gôl i ddim fu'r hanes, ond gêm i'w anghofio ydoedd - ni lwyddwyd o gwbl i gystadlu yn y gêm, heb son am ddod yn agos i sgorio nag i ennill - roedd y cefnwyr yn dal i gael eu traed odditanynt pan sgoriwyd y gôl gyntaf, a phan benderfynodd Gareth Huws roi'r bêl wrth droed blaenwr Fitzalan yn yr ail hanner iddo sgorio'r ail gôl, roedd anobaith wedi'n trechu. I fod yn deg â Gareth, mae pawb yn sylweddoli fod henafgwyr yn gwneud cam-gymeriadau weithiau!

Os mai colli fu hanes y tîm cyntaf, yna roedd gweld Tanc a Cen a Rhys Fon yn rhedeg i'r stafell newid bron cyn i'r dyfarnwr chwythu'r bib i ddiweddu'r gêm, yn arwydd pendant fod digwyddiad o bwys ar dro. Y sgôr, Aelwyd yr Urdd 2 - Free-booters 0. Gwyn bach a Gwyn yn sgorio, ac o'r fath lawenydd ar wynebau'r holl dîm wedi buddugoliaeth gyntaf 1981. Gobeithio fod hyn yn gosod y patrwm am weddill y tymor, a rhaid cofnodi fod y fuddugoliaeth wedi ei selio heb 'superstar' fel Alun Ffred Macdermott yn y tîm. Diolch unwaith eto am barodrwydd pawb i ymdrechu i gynnal yr iaith ar y paith yn nhymor 80-81.

## CYLCH CINIO MERCHED CAERDYDD.

Marian Rees.

Galw merched o bob oed a diddordebau. Does dim rhaid i chi gyfaddef eich bod chi am ddianc rhag y gwr - y plant - y teledu, am noson i raddio i'r Cylch Cinio, ond mae'n help!
Na, o ddifri rwan, mwynhau dod at ein gilydd am glonc fyddwn ni, cyn eistedd i lawr am bryd bach teidi heb dorri'r banc, ac yna eistedd yn ol yn braf i wrando ar rywun arall yn siarad (am newid?). Gall fod yn sgwrs dechnegol, ymarferol megis honno gafwyd gan reolwr Cymdeith-as Adeiladu, neu'n ogleisiol lenyddol megis sgwrs Islwyn Jones am Gylchgronau Merched y ganrif ddiwethaf; neu'n rhyw-beth cymdeithasol, cyfoes megis sgwrs Dr. Morfudd Entwhistle ar effaith cyffuriau. "Iw nefar no!" chwedl Corrisa Jos yn y "Blewyn Glas"...ond stori arall yw honno.
Byddwn yn cwrdd yn nhy bwyta "Thatchers" (mi gofiwch hwnna!) sydd yng ngwesty'r Phoenix yn Llanishen, a hynny ar yr ail nos Iau bob yn ail mis, tua'r hanner awr wedi saith yma.
Ym mis Ionawr eleni daeth Mr. Alun Davies, Is-geidwad Adran Bywyd Cartref a Sefydliad, Amgueddfa Werin Sain Ffagan, atom i sgwrsio am ei waith yn casglu hen ddodrefn i'r amgueddfa, a chreiriau megis bathodynnau, medalau a baneri a berthynai i'n sefydliadau, megis yr Eisteddfod Genedlaethol. Agorodd ein llygaid i werth creiriau o'r fath, pethau, ysywaith, a i fin sbwriel yn llawer rhy aml.
Y tro nesaf, nos Iau,Mawrth 12, ein gwesteion fydd y boneddig-esau Rosemary Cosslett ac Avril Griffiths o'r B.B.C. y ddwy wedi dysgu Cymraeg. Bydd Rosemary'n son am ei gwaith fel cynorthwy-ydd cynhyrchu ffilmiau teledu gydag uned y B.B.C. ar lethrau Everest ac, ie, ym Mhatagonia. Braf ar rai! A bydd Avril, pwr dab, yn son am broblemau dysgwr. Edrychwn ymlaen yn fawr at groesawu'r ddwy. Ferched oll, cofiwch ddod!

# TIWN GRON

## TIPYNO BISHYN

Yn ystod Pasg 1981 fe fydd y cwmni uchod yn paratoi eu wythfed cynhyrchiad ar gyfer theatrau Cymru. Cynhelir rihyrsals am wythnos yn Llangrannog, ac yna fe fydd y cwmni yn mynd ar daith o gwmpas Theatr Clwyd, Theatr Gwynedd, Theatr y Werin a Theatr y Sherman, Caerdydd, am wythnos gyfan. Eleni mae'r cwmni wedi dewis cyflwyno YR OPERA PISHIN TAIR gan Bertolt Brecht, (cyfieithiad Emyr Edwards o THE THREEPENNY OPERA). Mae'r ddrama hon yn garreg filltir yn hanes y theatr Ewropeaidd, ac yn waith enwog drwy'r byd erbyn hyn. Mae'n ddrama sydd yn cynnwys caneuon, gyda miwsig wedi ei hysgrifennu'n arbennig ar gyfer gwaith Brecht gan ei gyfaill Kurt Weill.

Mae Cwmni Theatr yr Urdd wedi dilyn polisi comisiwn i awduron newydd ers tro bellach, ac wedi cyflwyno nifer o ddramau gyda cherddoriaeth, ac operau roc. Eleni yr oedd y cwmni'n teimlo y dylid ymhel a rhywbeth sylweddol byd enwog, gan gofio bod nifer fawr o dalentau actio, canu a dawnsio wedi eu meithrin ers nifer o flynyddoedd trwy'r cynyrchiadau. Dewiswyd felly YR OPERA PISHIN TAIR. Fe fydd eisiau cast a cherddorfa arbennig iawn i fentro ar y gwaith hwn.

Mae'r OPERA PISHIN TAIR yn cyflwyno stori Mac y Gyllell a'i helyntion ym myd Soho, Llundain, dauddegau'r ganrif hon. Mae Brecht wedi lleoli ei ddrama yno er mwyn dychanu imperialaeth, cyfalafiaeth a hefyd draddodiad yr opera melodramatig. Mae Mac y Gyllell yn hoff o'r merched ac yn priodi mwy nag un; dyna'i ddiwedd; daw'r heddlu a'i garcharu, a'i ddwyn i'r grocbren; ond y mae'r ddrama'n gorffen yn ddychanllyd o hapus. Mae'n waith sydd yn llawn eironi a dychan. Mae'n waith hefyd heb ei ail yn ei fywiogrwydd theatrig.

Fe ddewiswyd yr actorion, y cantorion, y technegwyr a'r offerynwyr o bob rhan o Gymru yn ystod mis Tachwedd 1980, a bydd y rhai ffodus yn rihyrsio adeg y Pasg 1981. Cyflwynir y gwaith yn Theatr Sherman (Yr Arena), 23-25 Ebrill, 1981, am 8.00 o'r gloch. Pris: £1.50.

Ym mis Chwefror aeth Cerddorfa Ieuenctid De Morgannwg i Stuttgart yn yr Almaen. Cyfle oedd hwn nid yn unig i berfformio mewn amryw o gyngherddau ond hefyd i gwrdd a phobol o'r un oedran ac a'r un diddordebau a ni. Fel y gellid dychmygu mae'r math yma o daith yn gofyn am baratoad manwl a gofalus ymlaen llaw. Y broblem fwyaf oedd yn wynebu'r gerddorfa oedd y broblem ariannol. Felly ers mis Medi diwetha mae aelodau'r gerddorfa wedi bod wrthi'n gyson yn casglu'n ddiwyd drwy gynnal disgo, cyngherddau, ffair sborion, ffair lyfrau a dim ond enwi rhai o'r gweithgareddau.

Efallai mai ein llwyddiant penna a'r un roddodd y boddhad mwya inni oedd chwarae ein hofferynnau yn ystafell fwyta "Circles" yn Howells. Byddem fel grwpiau yn chwarae yn ein tro bob dydd Sadwrn ac amrywia'r detholiad cerddorol o ddarnau syml, ffurfiol Haydn i ddarnau gan Mendelssohn. Gyda chefnogaeth rhieni brwd a'r cyhoedd hael galluogwyd ni i ddangos i wlad enwocaf y byd am gyfansoddwyr bod yna weithgarwch cerddorfaol brwd ym mysg ieuenctid "Gwlad y Gan".

Elen ap Robert.

*Ai chi sy'n darllen*

**CURIAD ?**

PAPUR BRO CYMRU GYFAN




**Ar werth yn eich siop bapur — holwch amdano** **30c**

## RECORD "ROC" NEWYDD



Llongyfarchiadau i Gantorion Creigiau ar eu hymddangosiad ar 'Y Gan Gynulleidfaol'. Arweinydd y cor yw Mair Roberts. Deallwn y bydd y cor yn rhyddhau eu record gyntaf cyn bo hir.



ŵyl gerdd dant
enedlaethol
cymru
caerdydd
1981

# TAITH Y PERERINION

Dechreusom ein tri yn llawn gobaith tua 5 o'r gloch. Roedd y daith yn undonog mewn ffordd, dim ond rhif y drafforddd yn newid - M4, A449, A46, M50, M5, M6. Yr un oedd y drafnidiaeth ond yr heol yn gwella ar ol cyrraedd Birmingham. Arhosom dros nos yn y Blue Bell, Heversham ychydig o filltiroedd y tu fewn i'r Gymru arall - Cymru Catraeth a'r Gododdin. Sylwch mor od yw'r Sais - ein galw ni yn Wales, Gwlad yr Estroniaid (y fath wyneb!) ond dal i alw Saeson y Gogledd-Orllewin yn Cumbria!

Fore Sadwrn teimlwn fy mod yn wir ran o'r bererindod - TX fan hyn, TG fan draw, goddiweddyd CY a WN a TH ar Shap. Wrth nesau at Gretna fe welsom geidwaid y ffin yn gwarchod rhag y ddiod - heddwas ar y bont gyntaf yn rhybudd o'r sychter o'n blaen.

Ar ol gyrru i mewn i Orsaf Princes Street (shwd gwymp o Orsaf i Barc Ceir) ceson ni fwyd ym Mhantri'r 'Laird'. Wedyn am dro hyd hanner Princes Street a chlywed y gytgan gyffredinol "Any spare tickets!" Doedd dim un.

I lawr i Murrayfield yn y dorf a minnau o hyd heb docyn, llawer yn llai gobeithiol ond yn siarad, y tri ohonym, yn llawn ffydd.

Y cytgan yn cryfhau ond neb yn cynnig tocyn wrth y prif fynedfa. Ceisio wrth un llai a chael llwyddiant ar unwaith - dau docyn yn cynnwys un i'r stand.

Ond i beth - ! Siom! Gorau po leiaf a sonnir am y gem.

Wedi'r gosfa aethom i chwilio am ein pasport tua thref - anrhegion i'r plant a'r gwragedd. Cyfle hefyd i gael tro hyd y Filltir Frenhinol a syllu ar y "Parliament House" sy'n Llysoedd Barn, Adeilad y Gymanfa Gyffredinol sy gymaint o Senedd ag sy gan yr Albanwyr yng Nghaeredin a'r holl adeiladau eraill sy'n gwneud prifddinas wych ond un sy eto heb reolaeth ar ei gwlad ei hun.

Dechreusom y daith yn ol rywfaint fel byddin Ffrainc yn gadael Mosco yn 1812, ond yr oedd gwell croeso yn ein disgwyl yng Ngwesty Moffat House na'r un a gafodd Napoleon. Roedd yr Albanwyr yn hoffus ond syndod oedd clywed cymaint o Gymraeg ym mhob man. Grwp Gwerin Albanaidd yn gorfod cystadlu ag emynau Cymraeg ac ildio yn y diwedd.

Am 11.15 aethom yn llwyr flinedig i'n gwelyau. Roedd gan y cyfeillion o Gastell Nedd syniad gwahanol ac wrth ddod i'r gwely ryw bedair awr yn hwyrach gwnaethon ddigon o swn i ddihuno'r meirw am filltiroedd o gwmpas. Syndod oedd gweld rodneys i gyd yn barod i wynebu brecwast sylweddol yr Alban am 8 y bore nesaf.

Gadawsom y pererinion yma ar eu holau ac ar y ffordd gwelsom geir, bysiau, faniau, pob rhyw gerbyd yn llawn o Gymru digalon, di-ysbryd, cysglyd. Ar y ffordd wrth chwilio am ginio troesom i mewn i Stafford. Yn ddiweddar penderfynwyd gan bolpiniwn taw Grantham yw'r dref fwyaf diflas yn Lloegr. Y flwyddyn nesaf ein bwriad yw enwebu Stafford am y teitl yma.

O'r diwedd dyma Gaerdydd yn ymddangos dros y gorwel yn hardd yng ngolau'r machlud, a Ronech ac Echni yn glir ym Mor Hafren.

Dechreusom siarad am y gem yn erbyn Iwerddon ac yn fwy pwysig, am Baris...ymhen mis....

# TEULU HALL

**Llongyfarchion i Richard Hall Williams ar ei ddyrchafiad i fod yn bennaeth Adran Amaethyddiaeth yn y Swyddfa Gymreig. Mawr fydd y croeso i Nia a Richard a'r teulu ar eu dychweliad yn ôl i'n plith.**

# GUILD HALL

**Llongyfarchiadau i'r canlynol:**
**i Huw Owen a Geraint Rees o Ysgol Llanhari ar gael eu derbyn i Rydychen.**
**i Ioma Jones ar gael ei derbyn i'r Guildhall School of Music yn Llundain.**

# HOLI AM

TEIPYDDES a deugain mlynedd o brofiad yn barod i ymgymryd ag unrhyw waith teipio gartref. Cynigir hefyd wasanaeth gwneud planiau ar gyfer estyniadau, garages etc. Ffonier Caerdydd 891008 gyda'r nos.

# HELO — HELO — HELO

**Mae Mr. Emyr Jones, A.E.M. a'i wraig Marion a'u tri mab wedi symud i fyw i Tŷ Draw Rd., Y Rhath. Emyr oedd ysgrifennydd Eisteddfod Glyn Ebwy a bu Marion yn cydolygu'r cylchgrawn "Hon" â Nia Hall Williams. Mae iddynt dri mab, Arthur Emyr, Dafydd Emyr a Garmon Emyr. Ar hyn o bryd mae Arthur Emyr yn nhîm rygbi Abertawe a thîm Prifysgol Cymru.**

Trwsgwl braidd fu hanes y mudo. Bu raid gadael yr hogia o flaen y tŷ tra'r aeth Emyr a Marion i nôl goriad y tŷ. Tasg y meibion oedd croesawu'r fan ddodrefn. Aeth chwilfrydedd yn drech na'r hogia ac fe'i gwelwyd gan blismyn yn sbecian drwy'r ffenestri. Meddyliodd y plismyn eu bod ar berwyl drwg ac er i'r hogia daeru mai sbecian drwy ffenestr eu cartre yr oeddynt gwrthododd yr heddlu eu credu. Cnociwyd ar ddrws y ty nesa er cael cadarnhad y cymdogion i honiad yr hogia - ond yr ateb a gafwyd oedd "I've never seen them before". Bu raid aros i'r tad a'r fam ddychwelyd i gadarnhau mai hwy oedd gwir feibion y tŷ hwn yn Nhŷ Draw Road!

# DYMUNIADAU GORAU

Dymunwn yn dda i Mr. a Mrs. Ithel Davies yn eu cartre newydd yn Aberystwyth. Bydd chwith mawr o golli dau o Gymry annwyl o'n plith - cwmni difyr Ithel a sirioldeb ei briod Enid Jones Davies - dau sydd wedi bod yn gymaint rhan o fywyd Cymraeg y ddinas cyhyd.

YN OL I'R BALA

Dymunwn yn dda i Mr. a Mrs. James Roberts sydd ar ol ysbaid yng Nghaerdydd yn dychwelyd yn ol i'r Bala. Ond mae'n siwr y gwelwn hwy'n amal, bydd raid i Taid a Nain ymweld a'r Cilgwyn, Llysfaen yn gyson.

CYFARFOD BLYNYDDOL

Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu gohirio y cyfarfod blynyddol hyd yr hydref.

# Y GOLOFN GAIN gan ARFON

LITANI LOES

Bywyd i'r iaith?

Gormod o waith!

Dwyieithrwydd?

Dyna gelwydd!

Statws gyfartal?

Isio cymhorthdal!

Polisi trwyadl?

Testun dadl!

Sianel Gymraeg yn awr?

'Choelia i fawr!

Addysg drwy'r cyfrwng?

Safonau'n gostwng!

Ffurflenni dwyieithog?

Clefyd y marchog!

Arwyddion ffyrdd?

Damweiniau fyrdd!

Cymreigio'r Post?

Pennau tost!

Yr iaith mewn masnach?

Dyna sothach!

Ei siarad â'r plant?

Deg y cant!

Eos Glanafon.

Pan recordiwyd rhaglen 'Talwrn y Beirdd' yn Ysgol Glantaf i'w darlledu ar y 18fed a'r 19eg o Chwefror mynegwyd awydd **am weld** cyhoeddi llyfr yn cynnwys cynnyrch gorau'r gyfres boblogaidd hon. Tybed a welir yn y gyfrol honno beth o waith beirdd Glannau Taf? Hwynthwy (Islwyn Jones, Urien Wiliam, Alun Ogwen ac Euryn Ogwen yn eu plith) oedd yn ymryson y tro hwn a beirdd Bro Wysg a thybiais y byddai darllenwyr 'Y Dinesydd' am weld peth o'u gwaith ar glawr.

I ddechrau dyma gynnig beirdd Bro Wysg ar limerig "yn ymwneud a phregethu":

Roedd hwn hoelion wyth y gorffennol
Yn codi i hwyliau fflamychol.
  Disgynnodd y llen,
  Mae'r porthi ar ben
A swn yr Amen yn absennol.

Ond daeth Islwyn Jones yn gyfartal gyda'r pennill hwn:

Pregethwr o Ddyffryn Dysynni
Rol son am y Nefol Oleuni
  A ddaliwyd, mae'n syn,
  Gan blisman Tal llyn
Heb olau ynghyn ar ei Fini.

Cafodd Euryn Ogwen hwyl arni gyda'r pennill hwn o Ymson cefnogwr pel-droed:

Un ar ddeg o hogia cryfion
Llond 'u crwyn yw'n hogia ni;
Un ar ddeg sydd gan y telyn,
(Deuddeg gyda'r reffari).
Ond paham bob p'nawn dydd Sadwrn
'Mod i'n gweld, awn ar fy llw,
Hogia ni mor anobeithiol
Fel 'tae cant ohonyn nhw?

Euryn hefyd oedd **biau**'r cwpled gogleisiol hwn yn cynnwys y gair 'amser':

"Haia Pam, 'sgen ti'r amser?"
"Wel oes, 'rhen goes, 'sgen ti'r ger?"

Ond beirdd Bro Wysg aeth a hi gyda'r cwpled sylweddol:

Olrhain ni all dynolryw
Na mesur hwn, amser yw.

A son am bethau sylweddol, gofynnwyd am englyn gyda'r gair "mawr" yn amlwg ynddo a dyma englynion Bro Wysg a Glannau Taf yn eu tro

Daeth dydd mawr, daeth gwawr o deg wedd, - meddu
  Moddion, parch a mawredd;
Mawrhau trugareddau hedd,
Fe welaf fawr orfoledd.

Tyrr gwawr o fawr gyfaredd ar ein byd;
  Mae'r Un bach sy'n gorwedd
Yn rhy fawr i oferedd
Y llawr, yn rhy fawr i fedd.

Er nad oedd y beirniad Gerallt Lloyd Owen yn gabl fodlon arno englyn Glannau Taf aeth a'i fryd. Felly hefyd gyda'r englyn yn cynnwys y llinell 'Oer ei fyd mewn carafan', Englyn Bro Wysg i ddechrau:

Yn unig wrtho'i hunan - byw rhagor
  Heb ei wraig mae Ifan;
Gwas carbed megis crwban
Oer ei fyd mewn carafan.

ac yna englyn Glannau Taf:

Yn ebrwydd darfyddai clebran Isaac
  D. Hooson; a'r Gaea'n
Wyntog fe fyddai ynta'n
Oer ei fyd mewn carafan.

Efallai y ceir rhagor y tro nesaf, ond yn y cyfamser cofiwch, chwi feirdd anfon eich cerddi ataf yn 31 Heol Don, Yr Eglwysnewydd.

# COLOFN
## Shân Emlyn

Yn y cyfarfod graenus a gafwyd i wahodd Eisteddfod yr Urdd i'r Brifddinas yn 1985 bu nifer yn dwyn i gôf atgofion melys am y gweithgarwch a fu ynglŷn â Steddfod yr Urdd yma yn 1965. Edrych yn ôl yr oeddwn innau hefyd ac un teulu arbennig oedd yn fy meddwl i. Sôn yr ydwi am y diweddar Keri ac Alwen Harris Hughes. Mawr fu cyfraniad y ddau yma i nifer o achosion da.

Daeth Owen a minnau yma i fyw i fflat diflas yn yr Eglwys-newydd yn 1961. Roedd Owen yn setlo i lawr yn bur dda ym mwrlwm a brwdfrydedd Uned Heddiw, tra roeddwn i'n ceisio ymgodymu â dinas hollol ddiarth, heb adnabod neb bron, yn casau'r fflat cyfyng ac yn gofalu am Elin oedd yn cropian i bob man. Un noson daeth cnoc ar y drws - cwpwl urddas-ol yn cyflwyno'i hunain ac yn ein croesawu i Gaerdydd - a dyna ddechrau cyfeillgarwch clos iawn efo Anti Alwen ac Yncl Keri. Gallaf ddweud y bu Anti Alwen fel ail fam i mi. Roedd fy mam yn wael iawn yn y cyfnod hwnnw ac fe'm galwyd adre'n amal. I hwyluso pethau, fe aed ag Elin a'i chot draw i Palace Road ac Anti Alwen bob amser yn falch o gael gwarchod.

Cofiaf hwy'n trefnu swper inni a gwahodd llond tŷ o bobol ifanc er mwyn inni ddod i adnabod rhai o'r un oed â ni. Os oeddwn mewn trafferth - coginio, gwnio cyrtens, Elin yn sâl neu unrhyw drafferth, y drefn oedd SOS am Anti Alwen. Wedi inni gael tŷ, Yncl Keri wyddai ble i gael saer, tryd-anwr a phlymar. Wedi colli fy mam at Anti Alwen y byddwn yn troi am gyngor.

Pan anwyd Mari o dan gronglwyd Byddin yr Iachawdwriaeth yn Northlands roedd Owen yn cyflwyno 'Heddiw' amser cinio a gyda'r nos. Cofiaf deimlo'n fflat wrth i Owen ddod i'm nôl o Northlands un bore i fynd a mi a'r bwndel bach adra, gan egluro bod raid iddo fynd yn syth yn ôl i gyflwyno rhifyn amser cinio, finna'n ymdrab-aeddu mewn hunandosturi nad oedd gen i neb i ddisgwyl amdanai yn y tŷ (roedd Elin yn cael ei gwarchod gan ffrind-iau da eraill yn Aberystwyth gan Evan a Nan Prytherch). Dyma gyrraedd Coed y Pry a'r drws ffrynt yn agor ac Anti Alwen â'i wyneb hawddgar yn aros amdanaf. Arhosodd efo mi drwy'r dydd ac roedd y gegin yn llawn cacenau a ham.

Atgofion personol fel yna ddaeth i'm meddwl yn ystod Cyfarfod Gwahodd Eisteddfod yr Urdd i Gaerdydd. Cofio hefyd am frwdfrydedd ac ymroddiad Yncl Keri fel trysorydd Eisteddfod yr Urdd 1965 a thrysorydd cynta Canolfan yr Urdd. Anfesuradwy fu cyfraniad y teulu yma i fywyd capel a bywyd cymdeithasol Cymraeg Caerdydd.

Bu hiraeth mawr arnynt pan aeth y ddwy ferch, Ruth a Mair, i ymgartrefu yn America a Chanada a gobeithiaf i ni fel teulu allu llanw dipyn ar y bwlch iddynt. Mewn rhyw ffordd ryfedd roeddem drwy gydol ein cyfeillgarwch yn gallu gwneud cymwynasau a'n gilydd. Wedi colli Anti Alwen yn frawychus o sydyn cawsom gyfle i dalu llawer pwyth yn ôl drwy leddfu ychydig bach ar unigrwydd Yncl Keri.

Ar ôl bod yng nghyfarfod Gwadd Eisteddfod yr Urdd i Gaerdydd deuthum adra a meddwl mai da oedd cael adnabod Yncl Keri ac Anti Alwen ac mai gweddus sôn a thalu teyrnged iddynt yn y golofn hon.

---

Ers dechrau'r flwyddyn mae Delyth, merch Mr. a Mrs. John Ewart Jones, 135 Heol y Deri, Rhiwbeina, wedi ei dyrchafu yn Ward Sister yn Ysbyty'r Waun. Mae hi'n gofalu am Ward B2 sydd ar gyfer pobol sy'n dioddef o anhwylderau'r galon. Mae Delyth yn gyn-ddisgybl o ysgolion Bryntaf a Rhydfelen.


**GWESTY LLETY CYMRO**

143 HEOL YR EGLWYS GADEIRIOL
CAERDYDD. FFÔN 399659

**GWELY A BRECWAST**
**BWYD A GWIN DA**

TRWYDDED PRESWYL


# YSGOL IFOR BACH

Gan mai blwyddyn yr Anabl yw hi eleni, bu cryn drafod ar broblemau'r bobl anffodus yma yng ngwasanaethau boreol yr ysgol ac fel dilyniant naturiol i hyn buom yn trafod pobl nad ydyn mor ffodus a'r plant yn eu hamgylchfyd. Ein gobaith oedd ceisio'u harwain i ddinasyddion gwell. Talwyd sylw arbennig i'r henoed sydd mor aml yn unig ac annogwyd y plant i ymweld a phersonau oedrannus sy'n byw yn eu hymyl ac ar brynhawn dydd Mawrth, Ionawr 20fed, gwahoddwyd hen bobl Senghennydd ac Abertridwr i'r ysgol a pherff-ormiwyd y ddrama ar gan, "Ali Baba" (a recordiwyd gan y plant ar gyfer "Sain, Cerdd a Chan"). Paratowyd te ar gyfer yr hen bobl a daeth nifer sylweddol ohonynt i'r ysgol a mawr oedd eu mwynhad.

PENBLWYDD YR YSGOL

Ar Ionawr 30ain roedd yr ysgol yn dathlu ei phenblwydd yn ugain oed. Sefydlwyd yr ysgol gydag unarddeg o ddisgyblion yng Nghaerffili ar Ionawr 30ain, 1961. O'r cnewyllyn bach yma aeth yr ysgol o nerth i nerth gan ddenu mwy a mwy o ddisgyblion yn flynyddol. Symudwyd i'r adeilad presennol yn 1963 ac yn wir, cymaint oedd y galw am addysg ddwyieithog yn y cwm fel y rhanwyd yr ysgol yn Ionawr 1970 a symudodd tua chant o blant i ddechrau ysgol Gymraeg arall yng Nghaerffili.

Erbyn hyn cynhwysa dalgylch yr ysgol ardaloedd Senghennydd, Abertridwr, Trecennydd, Penyrheol ac Energlyn. Fel canlyniad i sefydlu'r ysgol yma aeth addysg ddwyieithog o nerth i nerth yng Nghwm Rhymni, a nawr mae tair ysgol Gymraeg yn y cwm. Felly roedd penblwydd yr ysgol yn ddathliad o ddechrau addysg ddwyieithog yn y cwm.

Bydd y plant yn cystadlu'n frwd pob blwyddyn yn Eisteddfod yr Urdd a chymaint fu'r twf o'r cnewyllyn bach hwnnw fel ein bod fel Ysgolion Cymraeg Cwm Rhymni yn gallu cynnal nifer o gystadlaethau chwaraeon megis rhedeg traws gwlad, peldroed, rygbi, pel-rwyd, mabolgampau a nofio a hynny'n gyfangwbl yn y Gymraeg


# STEDDFOD YR URDD CAERDYDD 1985

Nos Fercher y lleg o Chwefror, cafwyd cyfarfod cyhoeddus yng Nghanolfan yr Urdd, Conway Road, i wahodd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i'r Brifddinas yn 1985. Calonogol iawn oedd gweld neuadd y Ganolfan yn llawn, ac yn llawn o groesdoriad da o Gymry Caerdydd. Roedd yno nifer dda o bobol ifanc, rhai o gefnogwyr canol oed cynnar yr Urdd, dysgwyr ac ambell un penwyn a'i gysylltiad â'r Urdd yn estyn yn ôl i'w dyddiau cynnar, a'u hatgofion yn felys.

Cadeiriwyd y noson, ar rybudd byr, yn urddasol, yn ffurfiol, ond yn gynnes, gan Emyr Currie Jones. Cymerodd le Owen Edwards ac ar ddechrau'r noson ymddiheurodd ar ei ran gan ddweud paham am resymau anorfod bod Owen Edwards yn ABSEnnol!

Y cynta i siarad oedd Alun Guy a'r ail Gwilym Roberts. Canolbwyntiodd y ddau siaradwr yma ar y newid yng Nghymreictod y ddinas oddiar eu plentyndod - twf Bryntaf, twf Ysgolion Meithrin ac Uwchradd - a bod yna erbyn hyn do o ieuenctid a theuluoedd ifanc sydd heb fod yn cofio Steddfod 1965, a'i bod yn hen bryd i'r Wyl ail ymweld â'r brifddinas. Gwnaeth Cyfarwyddwr yr Urdd, Cyril Hughes, yn glir iawn inni oblygiadau cynnal yr Wyl yma ac fe gafwyd anerchiad brwdfrydig gan Lady Edwards oedd yn ysbrydiaeth inni gyd. Braf oedd gweld a chlywed Syr Cennydd a Lady Traherne yn datgan eu cefnogaeth i'r Urdd a'n menter ni yma.

Cafwyd sawl cyfraniad o'r llawr gan garedigion yr Urdd, a gweithwyr Canolfan yr Urdd, yn datgan eu cefnogaeth. I'r sawl a oedd yno ni ellid llai na theimlo'r brwdfrydedd sydd yma i groesawu'r Steddfod yma. Unfrydol oedd y bleidlais a gobeithio i Elvey Macdonald a staff yr Urdd deimlo bod yna ddigon o frwdfrydedd yma i sicrhau Eisteddfod benigamp. Caled fydd y gwaith ond fel ag yn 1965, mae'n sicr y bydd gweithwyr a chefnogwyr yr Urdd a'r Gymraeg yn ymroi i forol y bydd Eisteddfod yr Urdd 1985 yn llwyddiannus a chofiadwy.



# RHODIO'R RHATH

Ar Ebrill y 4ydd am 10 o'r gloch y bore fe fydd rhai o blant Heol y Crwys yn rhodianna o gwmpas y Llyn, wedi cael eu noddi, gobeithio, gan laweroedd ohonoch. Mae hon yn un o'r ymdrechion a drefnir gan Ddosbarth Glan y Llyn i godi arian at Gronfa Dyfodol y Crwys. Y tro hwn Mr. Geraint Owens, Rhodfa Glan y Llyn, fydd wrth y llyw yn cadw golwg dros y fenter.

BUDDUGOLIAETH

Ar Ionawr 16 yng Nghaerfyrddin fe drechodd Clwb Rygbi Pentyrch Glwb Rygbi Aberystwyth o un pwynt ar hugain i ddeunaw. Gornest eiriol oedd hon nid gornest gorfforol. Mae buddugoliaeth Pentyrch yn golygu y byddant yn ymddangos ar y teledu yng ngem gyn-derfynol Cwis Rothmans rywbryd yn Chwefror. Pob clod i Brian Davies am ddal ei dir yn wyneb beirniad 'sigledig'.

E.H.

# O'R LLYS Y NADON

Yn dilyn y protestiadau yn gysylltiedig ag ymweliadau Ian McGregor a'r Prif Weinidog y soniwyd amdanynt yn y rhifyn diwethaf, mae cyfres o achosion wedi'u cynnal o flaen gwahanol Lysoedd Ynadon yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

Yn y cyntaf o'r gyfres datgelwyd gan un heddwas fod y cyhuddiadau wedi'u paratoi cyn y protest ynglyn ag ymweliad Mrs. Thatcher. Y cyfan oedd angen oedd llanw'r ffurflen ag enwau'r cyhuddiedig a dileu y cyhuddiad anghywir, h.y. ymddwyn yn fygythiol/defnyddio geiriau bygythiol/dilornus. Gwrandawodd y fainc ar dri heddwas, y diffynydd, Aled Jones, a phum tyst annibynnol. Rhoddodd y fainc (Leslie Jones, Ysw., Mrs. Margaret Eirug Davies a D. Wyn Thomas, Ysw.) ddedfryd o ddi-euog o ymddwyn yn fygythiol.

Yn yr ail achos cafwyd Paul Morgan o Lanedeyrn yn ddi-euog o ymosod ar heddwas oedd yn cyflawni ei ddyletswydd. Honnodd dau heddwas fod Mr. Morgan wedi bwrw heddwas yn ei fol. Tystiodd Mr. Morgan a phedwar tyst nad oedd hyn wedi digwydd ond fod yr heddwas wedi bigitan y diffynnydd. Cafwyd Mr. Morgan hefyd yn ddi-euog.

Yn y trydydd achos, y Cynghorydd Sir, Aneurin Richards oedd yn wynebu cyhuddiad o ymddwyn yn fygythiol. Honiad yr heddlu oedd ei fod wedi ymestyn rhwng ysgwyddau dau heddwas a chydio yng ngholer ciniawr. Ni ddaeth y ciniawr i roi tystiolaeth, ac ni wnaeth unrhyw gwyn ar y pryd ychwaith. Daeth pedwar tyst, o blaid Mr. Richards hefyd. Fe'i cafwyd yn ddi-euog gan fainc dan gadeiryddiaeth Mr. John Jones, â ddyfarnodd iddo £200 o gostau yn erbyn yr heddlu.

Mae yna ddau achos arall i ddod fydd hefyd yn cael eu clywed drwy gyfrwng y Gymraeg.

# AP DAFYDD

**Llongyfarchiadau i Norma a Henry Davies (Gwasg Cleglen) ar enedigaeth mab.**

# EDRYCH NÔL AC YMLAEN

gan

Eirion Lewis.

Yn gynnar ym 1971 cefais y cyfle cyntaf i ymweld â Chwarel Llechwedd, Blaenau Ffestiniog. Ers canol 1970 bu aelodau'r grŵp lleol oedd â diddordeb datblygu rhan o'r chwarel ar gyfer ymwelwyr yn frwd i rywun o'r Bwrdd Croeso i ymweld â nhw ac i drafod y posibiliadau. Ar ôl cyrraedd y lle cefais fy arwain yn syth i ymyl twll mawr yn ochr y graig; roeddwn wedi cael rhybudd i wisgo dillad cynnes ac esgidiau cryf ac ar ôl i mi wisgo het galed, i mewn â mi, braidd yn bryderus, i'r ceudwll yng nghwmni Bill Eastwood - dyn o syniadau a brwdfrydedd - a dau o'i gefnogwyr gweithgar.

Tu fewn i'r ceudwll roedd yna ddynion yn gweithio; rhai yn gosod cledrau ac eraill yn cysylltu gwifrau trydan. Yn ystod y daith gerdded i'r hyn a dybiais oedd crombil y ddaear, eglurodd Bill Eastwood ei holl syniadau ar gyfer y project. Rhaid i mi gyfaddef mai anodd oedd i mi ddychmygu y tyrfaoedd yn heidio i'r fath le - er i ryw syniad o'r fath gael ei drafod mewn cyfarfod gyda'r cyngor lleol dwy neu dair mlynedd cyn hynny. Ond wrth wrando ar Bill yn egluro ac yn esbonio'r cyfan roedd y cynllun yn dod yn fwy a mwy ymarferol. Dyma gyfle i bobol o bob oedran ac o wahanol wledydd i gael profiad ar ddiwydiant arbennig, ar ardal arbennig ac ar ffordd o fyw.

Ym mhen draw'r ceudwll dyma ddod ar draws hen gwt pren diaddurn a hwnnw yn cysgodi wrth ymyl craig fawr; codai mur y graig yn serth at agoriad sydyn yn nho'r ceudwll. Y caban hwn oedd lloches y chwarelwyr lle treulient eu hychydig hamdden yn trafod pregethau'r Sul a materion pwysig y dydd. Diddorol oedd hyn i mi gan i minnau gael fy ngeni mewn pentref glofaol yng ngorllewin Morgannwg a chofiwn glywed hanes am arferion tebyg y gwaith glo gan fy nhadau.

Mae gennyf le i gredu bod un o lyfrau cofnodion y caban hwnnw ym Mlaenau Ffestiniog yn ddiogel ar aelwyd yng Nghaerdydd heddiw; diddorol fuasai cael darllen darnau ohono yn y 'Dinesydd'.

Canlyniad i'r ymweliad hwnnw oedd i'r fenter fynd yn ei blaen. Ymhen byr amser, roedd y lle'n agored i ymwelwyr ac o fewn naw mis, bu dros 160,000 yno; ymhen blwyddyn, 250,000, ac ymhen tair neu bedair mlynedd, dros 400,000. Erbyn hyn, roedd Chwarel y Gloddfa Ganol wedi agor hefyd.

Bu llawer o gyhoeddusrwydd i'r fenter newydd. Enillodd dlws Awdurdod Twristiaeth Prydain a chychwynnodd batrwm o ddatblygiadau yn adlewyrchu diwydiannau lleol trwy Brydain trwy gyfrwng buddsoddiad a menter masnachol.

Rhaid cofio hefyd bod yr Amgueddfa Genedlaethol wedi arloesi yn y maes; gwnaeth D. Morgan Rees waith arbennig yn yr Adran Ddiwydiannol i gofnodi hanes a datblygiad yr ardaloedd diwydiannol yng Nghymru ac nid oedd neb parotach nac yntau i gynnig cyngor a chymorth i'r datgblygiadau newydd. Mae Amgueddfa Diwydiant a Môr ardal dociau Caerdydd ac Amgueddfa Gogledd Cymru, Llanberis, yn deyrnged parhaol i'w waith a'i weledigaeth.

Cynllun cyffrous ar gyfer y dyfodol yw'r bwriad i addasu ac agor y Pwll Mawr ym Mlaenafon; bu llawer o waith eisoes ar atgyweirio ac adnewyddu hen safle'r gwaith haearn yn y dref a phwy a ŵyr na fydd miloedd yn ymweld â'r dref hon ymhen rhai blynyddoedd. Mae'r diddordeb mewn hanes diwydiannol wedi arwain i Gyngor Gorllewin Morgannwg agor rhan o bwll-glo Creunant ac mae Amgueddfa Diwydiant a Môr o dan nawdd Cyngor Dinas Abertawe wedi ei hagor gerllaw y Canolfan Hamdden newydd; mae'n werth talu ymweliad hefyd âr Amgueddfa Lofaol fechan sydd yn rhan o Ganolfan Afan Argoed, ar y ffordd rhwng Aberafan a'r Rhondda.

Bûm yn ffodus o gael sawl cyfle i ymweld â gwledydd tramor ac i weld nifer o atyniadau arbennig iawn. Gwn fod ymweliadau i "Disneyland" ac i "World of Disney" yn yr UDA wedi bod yn brofiad cofiadwy i sawl teulu o Gaerdydd a'r cylch fel yr oedd i minnau. Yn erbyn pob disgwyl, profais gyflwyniad arbennig o hanes a bywyd cyfandir cyfan; cymerwyd mantais o bob dyfais dechnolegol yn y cyflwyniad

Gadewch i ni ddychmygu rhwydwaith gwreiddiol camlesi De Cymru ochr yn ochr gyda phwll glo neu ddau, gwaith haearn a dur, a llu o adeiladau megis neuaddau, capeli, bythynnod a thai, oll yn adlewyrchu pensaerniaeth eu cyfnod; dociau Caerdydd, Porth Talbot, Abertawe a Chasnewydd ar yr un safle.

O'u hadeiladu ar ffurf modelau ar safle bwrpasol, ganolog, byddai modd ail-greu datblygiad a hanes diwydiannol a chymdeithasol De Cymru o ddechrau'r chwyldro diwydiannol; datblygiad y maes glo, y rheilffyrdd a'r dociau; y diwydiant haearn a dur; y ffyrdd a'r traffyrdd; y camlesi a phrif adeiladau'r rhanbarth. Byddai'n bosibl cyflwyno adflas ar sgrin ac ar lwyfan hanes y traddodiad diwylliannol a chymdeithasol ac o gymeriadau y gorffennol, ynghyd â chyflwyniadau o adloniant gyfoes. Cneuen o amgueddfa.

Ymarferol? Mae "Madurodam" yr yr Is-Almaen yn ganolfan sydd yn llwyddo i ddenu dros hanner miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn. Yn Denmarc, lle mae llai na phum miliwn yn byw a heb ddiwydiant twristiaeth mawr, mae "Legoland", datblygiad y cwmni teganau adnabyddus. Canolfan yw hwn lle mae dros miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn yn talu £1.20 (pris 1978) i weld arddangosfa awyr agored o blasau a phrif adeiladau'r wlad - ac o wledydd eraill - ar ffurf modelau; ac i wario llawer mwy ar brynu bwyd ac adloniant. Mae yno theatr yn cyflwyno ffilmiau ar hanes a thraddodiad y wlad; amrywiaeth o lefydd bwyta; digon o atyniadau ar gyfer y plant a dewis o siopau yn gwerthu amrywiaeth o grefftau lleol ac anrhegion. Ac mae popeth yno o safon uchel - y cyfan wedi ei ddatblygu i safon uchel, chwaethus; ac mae pob man yn lân.

Tybed na fyddai modd datblygu rhywbeth tebyg yn Ne Cymru? Mae llawer o domenni sbwriel y pyllau glo wedi eu haddasu'n effeithiol ar gyfer diwydiant; beth am ddefnyddio un safle ar gyfer creu canolfan ddiddorol, atyniadol a fyddai'n cynnig y cyfle i warchod ac i gyflwyno hanes a thraddodiad cymdeithasol a diwydiannol De Cymru dros gyfnod y ddwy ganrif ddiwethaf? Byddai'n fodd i greu swyddi newydd; byddai ynddo apêl, nid yn unig i ymwelwyr ond i ni a'n plant hefyd; byddai iddo werth addysgiadol. Ac fel Cardi - mabwysiedig - credaf y byddai'n talu'r ffordd.....

CYMDEITHAS CLWB CYMRAEG CAERDYDD:

NEWYDDION:

Erbyn hyn mae dros 350 o aelodau yn y Gymdeithas gan gynnwys 110 o aelodau sylfaenol. Mae adeilad mewn golwg a rhaid cael mwy o aelodau. Felly ymunwch nawr.

DIGWYDDIADAU

AR LOG yng Ngwesty'r Great Western ar nos Wener, Mawrth 13, 7.30 p.m. - 11.45 p.m. £1.

Tocynnau ar gael oddi wrth NIC AP GLYN (497414) neu DULAIS RHYS (42891).

---

Anfonwch at Nic ap Glyn, 135 Keppoch St., Plasnewydd, Caerdydd.

DYMUNAF: ........ docyn ar gyfer noson AR LOG (£1)
ddod yn aelod o'r Gymdeithas (£1)
ddod yn aelod sylfaenol o'r Clwb
(£5-£55 y mis am ddeunaw mis)

Amgaeaf £..........

Enw: ............................................................

Cyfeiriad: ......................................................

.................................................................

# HYDER

Ar yr 2il o Chwefror agorwyd Uned arbennig yn Ysgol Bryntaf. Roedd hwn yn ddigwyddiad holl-bwysig i'r plant bach hyn sy wedi bod naill ai mewn Ysgol Feithrin neu'n cael tiwtor gartre heb obaith o gael Addysg llawn amser trwy gyfrwng y Gymraeg. Ers mis bellach maent wedi bod yn Ysgol Bryntaf o dan ofal Mr. Tom Evans a'i gydathrawon. Maent yn eu dosbarth arbennig yn y bore gyda Mrs. Beryl Williams eu hathrawes ac yn y dosbarth cyffredin yn y prynhawn. Diolch yn fawr i athrawon yr ysgol am dderbyn her newydd eto a goresgyn pob anhawsterau yn hollol llwyddiannus.

Diolch i bawb fu yn y Noson Goffi i lansio Cymdeithas Hyder, i chwiorydd y capeli ac i'r bobol ifanc fu'n canu calennig o gwmpas ardal Llandaf - mae'u cyfraniadau o werth mawr yn prynu offer i'r uned hon. Mae'r awdurdod yn darparu athrawes a mae hi'n ardderchog ond roedd angen offer. Felly DIOLCH i bawb sy wedi cyfrannu eisoes. Mae'r plant yn cael defnydd mawr o'ch rhoddion. Rhaid sicr-hau nawr na fydd yr Awdurdod yn llaesu dwylo ond yn parhau i wneud eu dyletswydd i ddarparu Addysg Gymraeg i BAWB.

AP RUPASINHA

Sunil Rupasinha yw Is-Lywydd Materion Cymreig Coleg y Brif-ysgol. Mae hon yn swydd gymharol newydd ac yn delio â phob agwedd ar faterion Cymreig a Chymraeg y Coleg yn enwedig y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg. Yn Llawlyfr Undeb y Myfyrywyr (sy'n uniaith Saesneg fwy neu lai) dywed Sunil ei fod yn gobeithio gwneud ei orau. Fe anwyd ef yng Nghymru ac felly cred y gall uniaethu â materion Cymreig.

PWYLLGOR CYMRU, GWYL PAN-GELTAIDD
CILL AIRNE, 13-20 MAI, 1981.

39 Heol Clare,
Ystalyfera,
Abertawe.

Annwyl Olygydd,

Hoffwn dynnu sylw eich darllen-wyr at gystadlaethau gwerin arbennig i ddewis cynrychiolwyr Cymru ar gyfer Gwyl Cill Airne (Killarney), 1981.

Cynhelir y cystadlaethau yng Nghanolfan yr Urdd, Aberystwyth am 2.00 bnawn Sadwrn, 28 Mawrth. Byddant yn cynnwys canu gwerin a dawnsio gwerin (unigol a pharti), canu'r delyn a chanu'r ffidil. Bydd y buddugol yn ennill gwobrau hael, lle ar fws Pwyllgor Cymru'r Wyl i Cill Airne, ac yn cystadlu yn enw Cymru yn yr Wyl.

Mae hwn yn gyfle heb ei ail i gymdeithasu a'n cyd-Geltiaid mewn ardal fendigedig yn Iwerddon, felly danfoner am fanylion pellach a ffurflen gystadlu at:

Tegwyn Williams,
Penbedw,
Ffordd y Bryn,
Llanelwy.
Rhif ffon: Llanelwy
583612

Yn gywir,

Anwen Hughes.

**Cydymdeimlwn yn ddwys a Mrs. Alys Jones a'r ferch fach yn eu profedigaeth lem a sydyn o golli Gwyn. Daeth ton o dristwch dros bawb ohonom sy'n adnabod y teulu bach yma. Dymunwn nerth iddynt i ddygymod â'r bwlch mawr ar yr aelwyd.**


---

Ar y 28ain o Ionawr bu farw Mrs. Bessie Bishop yn sydyn iawn yn ei chartref. Cyn aelod yng Nghapel Pembroke Terrace oedd Mrs. Bishop ac wedi ymgartrefu'n aelod ffyddlon iawn yn Heol y Crwys. Bydd colled mawr ar ei hol yn Nosbarth Ysgol Sul Mrs.Lotwick ac yn oedfa'r nos. Roedd yr angladd yn Heol y Crwys ar ddydd Iau, Chwefror 5ed.

---

Ar ddydd Sul, Chwefror 15eg bu farw Mr. Rhys Davies, gynt o Lanbedr Pont Steffan. Cyd-ymdeimlwn yn fawr a Miss Eirwen Davies, ei ferch, a fu'n gweini ac yn gofidio mor hir amdano yn ystod llesgedd hir yn yr ysbyty. Bydd yr angladd ar ddydd Iau, Chwefror 19, ac aethpwyd a'i weddillion tua thre ar ddydd Gwener,Chwefror 20fed.

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn



**Ar Draws**

8. Cario Dei yn drwsgl wrth reoli'r cyfarfod a chydnabod bardd (8)
9. Dewisir ein llywodraethwyr (6)
10. Lle'r aberth mewn rhan arall o'r deml (4)
11. Doedd eu swcr ddim yn siwr wrth wadu'r gosodiad (10)
12. Hocedwr (6)
14. Mae tywyllaf lôn y ddunos yn peri anesmwythyd (8)
15. Fanco! (1,3,3)
17. Diddarbod yw; mae ei ddiffyg trefn yn dreth, odi wir!(7)
20. Siarad dwli yw boddi lard, rywsut (8)
22. Dinas yn Nyfed (6)
23. A gynhyrfi di Ned a bas i ddadseinio? (10)
24. Brygawthan (4)
25. Ffrwyth (botanegol felly) (6)
26. Gwastraffus (ac edifeiriol) (8)

**I Lawr**

1. Rwy'n gwneud fy nghwrw fy hun (8)
2. Cynnyrch crefft y barcer(4)
3. Rhywbeth copr er stwrio(6)
4. Nid yw hanner rhain yn cylchredeg mwyach (7)
5. Hwyl Besi Benchwiban yw mynd heibio yn ddi-weld (3,5)
6. Medir y rhain o hau'r gwynt, yn ôl Hosea (10)
7. Teg ei farn (6)
13. Tynnu llun wnest o gwmpas pedwar cant wrth wahodd y cwmni i godi (10)
16. Cwrlidau (8)
18. Pobl â hanes iddynt (8)
19. Digymar (7)
21. Mae hwn yn gweithredu dros eraill. Ai sant yw? (6)
22. Mae teyrn â phedol yn troi yn dirion (6)
24. Gwŷdd Libanus (4)

**Datrysiad Croesair Rhif 10**

**Ar Draws:** 1. hidlo gwybedyn; 9. noswaith dda; 10. eisys; 11. afwyn; 12. eglurhaol; 13. telediad; 15. priddell; 18. llwybro; 20. adenedig; 23. yn brydlon; 24. drewi; 25. achwyn; 26. meistroli; 27. pob copa walltog.

**I Lawr:** 2. disgwyl; 3. ochain; 4. wyth-degau; 5. beatle; 6. daeargryn; 7. neshaodd; 8. dysgl; 14. derbynneb; 16. llygeidiog; 17. y dyn eira; 19. yn blwmp; 21. daethont; 22. plymio; 23. ynganu; 24. dotia.

## Y CALENDR

**MAWRTH**

Mawrth 10: Eisteddfod Ysgol Glantaf yn Neuadd yr Ysgol ynghyd ac Arddangosfa o waith llaw y plant, yr Arddangosfa yn agored am weddill yr wythnos.

Mercher 11: Merched y Wawr, Canolfan yr Urdd, Noson i'r Dysgwyr; 7.15 p.m.

Sadwrn 14: Eisteddfodau Cylch yr Urdd Dosbarth Caerdydd. Adrannau Ysgolion Cynradd - yn Ysgol Uwchradd Cantonian;
Adrannau Ysgolion Uwchradd - yn Ysgol Uwchradd Llanishen.

Sul 15: Cymanfa Ganu Heol y Crwys.

Gwener 20: Cyngerdd yn Neuadd Ysgol Glantaf gan blant Ysgol Melingruffydd a Glantaf, Dawnswyr Aelwyd Caerdydd. Tocynnau 50c; Plant am ddim; 7.30 p.m.

Sadwrn 28: Eisteddfod Sir yr Urdd.

**EBRILL**

Sadwrn 4: Eglwys Dewi Sant, 7.30 p.m.
"Llyna ddawn uwch llyn o ddwr"
CYNGERDD CLASUROL GAN:
Elin Angharad Edwards
Delyth Shapey
Howard a Ruth Watt
Tom Ellis James
Yr elw at Gronfa'r Crwys.

Sul 5: Theatr Sherman, 8.00 p.m. Cyngerdd gan Ysgol Rhydfelen.

Mercher 8: Eisteddfod Dysgwyr Morgannwg a Gwent; Canolfan yr Urdd; 7.00 p.m.

Sul 12: Cymanfa Ganu Annibynwyr Caerdydd, Capel Minny Street

23-25: Theatr y Sherman, Opera Pishyn Tair gan Gwmni Theatr yr Urdd, 8.00 p.m. Noder: Dau docyn am bris un ar y 23ain.

**MAI**

Sadwrn 16: Neuadd yr Adran Gerdd, Corbett Rd., Cyngerdd gan Gôr Philharmonic Caerdydd, Arweinydd: Alun Guy

**MEHEFIN**

27: Ffair Haf Glantaf

**HYDREF:** Cyngerdd yn Neuadd y Ddinas o dan nawdd Ysgol Feithrin Y Waun.



Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Fingerprints, 56 Mackintosh Place, Caerdydd.